PWYLLGOR CRAFFU'R ECONOMI A DIWYLLIANT

DYDD IAU, 12 EBRILL 2018

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Howells(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Ebrahim, Gordon, Gavin Hill-John, Robson a/ac Stubbs |

68 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Y Cynghorydd Thomas Parkhill

69 : DATGAN BUDDIANNAU

Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod ganddynt gyfrifoldeb dan Erthygl 16 Cod Ymddygiad yr Aelodau i ddatgan unrhyw fuddiannau ar ddechrau'r cyfarfod.

70 : COFNODION

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Chwefror 2018, 13 Chwefror 2018, 8 Mawrth 2018 a 27 Mawrth 2018 ac 27 Mawrth 2018 fel cofnodion cywir.

71 : RHAGLEN BUDDSODDI ADFYWIO WEDI EI DARGEDU

Croesawodd y Cadeirydd:

- Y Cynghorydd Lynda Thorne, Aelod Cabinet, Tai a Chymunedau
- Y Cynghorydd Russell Goodway, Aelod Cabinet, Buddsoddi a Datblygu
- Sarah McGill, Cyfarwyddwr Corfforaethol, Pobl a Chymunedau
- Neil Hanratty, Cyfarwyddwr Datblygu Economaidd
- Don Davidson, Adfywio Cymdogaethau
- Jon Day, Rheolwr Polisi Economaidd

Roedd yr eitem hon yn galluogi'r Pwyllgor i gael y newyddion diweddaraf am raglen adfywio newydd Llywodraeth Cymru a'r gwaith sy'n mynd rhagddo yng Nghaerdydd i benderfynu ar gynigion priodol ar gyfer hyn. Roedd y papurau yn cynnwys canllaw Llywodraeth Cymru ar hyn a'r adroddiad diweddar i'r Cabinet yn nodi manylion am y themâu a'r blaenoriaethau sy'n cael blaenoriaeth yng Nghaerdydd.

Rhoddodd Don Davidson gyflwyniad a oedd yn amlinellu'r canlynol:

- Roedd y Rhaglen Targedu Buddsoddiad mewn Adfywio (TRIP) yn rhaglen gyllid newydd gan Lywodraeth Cymru a'i nod yw rhoi cymorth i brojectau adfywio.

- Yn ei gyfarfod at 15 Mawrth, cafodd y Cabinet adroddiad ar TRIP, a nododd y cyfleoedd cyllido gan gytuno ar themâu sy'n cael blaenoriaeth o ran ceisiadau.

- Nod TRIP oedd buddsoddi mewn Projectau Cyfalaf a oedd yn cefnogi adfywio economaidd, fel y nodwyd yng ngweithgareddau'r ardaloedd adfywio.

- Cyllideb Cymru gyfan ar gyfer y rhaglen tair blynedd oedd £100M gyda dyraniad cenedlaethol o £44M ar gyfer rhanbarth De-ddwyrain Cymru.

- Roedd rhaid i bob project sicrhau bod ganddynt gyfraniad o ddim llai na 30% gan ffynonellau nad ydynt yn gysylltiedig â LIC. Roedd £1.3M wedi'i gynnwys yn rhaglen cyfalaf y Cyngor i gynorthwyo â gofynion arian cyfatebol.

- Roedd canllaw LIC yn mynnu bod rhaid alinio rhaglenni â threfniadau gwaith rhanbarthol, sydd yn Ne-ddwyrain Cymru yn cyfateb i Brifddinas-Ranbarth Caerdydd.

- Yn benodol roedd y gofynion yn cynnwys (i) cynllun adfywio rhanbarthol cyffredinol a (ii) cefnogaeth ranbarthol i gynigion ar gyfer projectau, cyn eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru.

- Nid oedd, fodd bynnag, unrhyw system ar waith ar gyfer delio â materion hyn fel rhan o'r trefniadau dinas-ranbarth presennol.

- Roedd cynllun adfywio rhanbarthol wrthi'n cael ei baratoi, yn seiliedig ar gyfraniadau gan y deg awdurdod lleol.

- At ddibenion TRIP, nodwyd mai'r Arc Ddeheuol – sef lleoliad rhai o'r cymdogaethau mwyaf amddifad yn y ddinas – oedd y targed o ran adfywio.

- Y ddau broject a thema a nodwyd oedd Coridorau Busnes a Hybiau Cymunedol er mwyn adlewyrchu'r agweddau datblygu economaidd 'lleoedd' a 'phobl'.

- Coridorau Busnes – Cafodd y rhain eu dewis ar sail anghenion economaidd-gymdeithasol, cyflwr ffisegol a chysylltiadau i ddatblygiadau o bwys rhanbarthol yng Nghanol y Ddinas.

- Blaenoriaeth 1 – Mae De Glan-yr-afon yn cynnwys Tudor Street, Heol y Gadeirlan Isaf a Heol Ddwyreiniol y Bont-faen.

- Blaenoriaeth 2 - Mae Y Rhath/Adamsdown yn cynnwys Heol y Plwca, Clifton Street a'r ardaloedd cyfagos.

- Roedd y projectau arfaethedig yn cynnwys buddsoddi mewn eiddo masnachol, ail-ddefnyddio adeiladau gwag, sefydlu unedau ar gyfer egin-fusnesau, gwella ardaloedd cyhoeddus a gwella'r 'pyrth' i Ganol y Ddinas.

- Hybiau Cymunedol – Cyfle i adeiladau ar lwyddiant y rhwydwaith o 11 o Hybiau Cymunedol sydd eisoes wedi'u sefydlu.

- Canolbwyntio ar ymestyn hyfforddiant 'i mewn i waith' a gwasanaethau cynghori, canlyniadau economaidd i bobl ifanc a chwalu rhwystrau o ran iechyd a llesiant sy'n atal pobl rhag cymryd rhan mewn gweithgarwch economaidd.

- Roedd TRIP yn rhaglen 3 blynedd yn dechrau yn 2018/19, er bod LlC yn rhagweld y byddai llawer o'r gweithgarwch yn y flwyddyn gyntaf yn canolbwyntio ar lunio project a pharatoi cais.

- Mae angen cadarnhau'r cynllun rhanbarthol a phrosesau, cyn llunio'r ceisiadau cynllunio yn llawn.

- Byddai gwaith dichonoldeb ar Goridorau Busnes yn cael ei wneud eleni, ynghyd â gwaith dylunio ar brojectau Hyb.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Swyddog am ei gyflwyniad a gofynnodd am gwestiynau neu sylwadau gan Aelodau:

Roedd y Pwyllgor yn awyddus i wybod a fyddai'r coridor busnes yn ymestyn i Sblot yn ddaearyddol.

Esboniodd y Swyddogion y byddai Blwyddyn 2 yn canolbwyntio ar Heol y Plwca, gan gysylltu â Crwys Road a Clifton Street a bod angen gwneud gwaith pellach ar gwmpas y project.

Roedd Aelodau'r Pwyllgor yn pryderu am ofynion canllaw Llywodraeth Cymru o ran diffyg sefydlu Gweithio ar sail Ranbarthol heb unrhyw systemau ar waith i ddelio â'r mater hwn.  Hefyd, a fyddai'r templed a awgrymir yn Atodiad 2 y Cynllun Cyflawni Projectau yn cael ei gwblhau yn dilyn cais llwyddiannus.

Dywedwyd wrth y Pwyllgor bod angen sefydlu systemau Rhanbarthol a bod gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu hyn.  Nid y Trefniant Gweithio ar y Cyd gyda'r Fargen Ddinesig yw'r corff priodol i lywodraethu hyn a byddai'n rhaid i'r cynllun gael ei gymeradwyo gan y deg awdurdod lleol.   Byddai cynigion yr awdurdodau lleol yn cael eu rhoi gerbron y Bwrdd Rhanbarthol i'w cymeradwyo, ond hyd yn hyn nid oes unrhyw systemau i alluogi'r Bwrdd i wneud y penderfyniad hwnnw.  Nid oedd unrhyw strwythur ar waith hyd yn hyn, ond roedd gweithgor swyddogion wedi'i sefydlu i fwrw ymlaen ag ef.

Dywedwyd eto wrth y Pwyllgor bod rhaid defnyddio'r templed a awgrymir ar gyfer y Cynllun Cyflawni Projectau fel canllaw.

Roedd Aelodau'r Pwyllgor yn croesawu'r coridorau busnes, gyda De Glan-yr-afon yn cael budd o'r cynigion.  Mae projectau fel hyn yn gwneud gwahaniaeth i ardal gydag Ann Street, a oedd unwaith yn lôn dywyll, bellach yn olau ac yn ddi-sbwriel.

Mewn perthynas â'r mesurau adfywio, roedd Aelodau yn awyddus i weld y gwaith o wella eiddo cymunedol yn datblygu yn Tudor Street a Heol Ddwyreiniol y Bont-faen, gydag unedau gwag yn cael eu llenwi, yn enwedig y rheiny uwchben siopau.

Esboniodd yr Aelod Cabinet bod unedau gwag yn cael eu monitro'n barhaus a'u defnyddio yn ôl yr angen.

Dywedwyd wrth Aelodau nad oedd yn glir sut y daeth y cyllid o £44M i'r amlwg. Roedd Rhodfa Lloyd George a Stryd Bute yn ardaloedd â blaenoriaeth, a bydd i dirwedd yn cael ei huwchraddio ynddynt.  Fodd bynnag, nid oedd yr ardal hon wedi'i

nodi fel ardal bosibl yn y lle cyntaf.  Hefyd, nid oedd unrhyw gyllid penodol wedi'i nodi ar gyfer Caerdydd a gallai'r 10 awdurdod lleol yn ardal Rhanbarth y De-ddwyrain wneud cais am gyllid ar gyfer projectau penodol.

Dywedwyd wrth y Pwyllgor mai proses gystadleuol oedd hon ac nid oedd unrhyw sicrwydd o ran beth fyddai Caerdydd yn ei gael.   Nid oedd y cais Cymunedau Bywiog a Hyfyw a baratowyd yn flaenorol yn llwyddiannus i ddechrau ond roedd y nodweddion allweddol dilynol a gyflwynwyd yn llwyddiannus a dylai cynigion am brojectau fod yn gwbl ymarferol er mwyn sicrhau'r cyllid.

Roedd yr Aelodau yn awyddus i ymgynghori ar brojectau gan ofyn bod yr holl ymgynghoriadau Aelod Ward yn cael eu cyflawni yn ystod y cam cynllunio cyn bwrw ati i roi projectau ffurfiol at ei gilydd.

Roedd yr Aelodau'n croesawu'r paragraff yn cyfeirio at unedau egin-fusnesau cystadleuol gan ofyn am ragor o wybodaeth ar ymgysylltu â'r gymuned a, syniadau ar sut fyddai projectau'n cyd-fynd â phrojectau cyfredol eraill, Sgwâr Canolog a'r Orsaf Fysus er enghraifft.

Sicrhawyd y Pwyllgor y byddai'r gwaith ymgynghori yn dechrau ar y cam cynharaf yn y broses.  Roedd swyddogion wedi bod mewn digwyddiadau sgwrsio yn arc ddeheuol y ddinas er mwyn dysgu mwy am y problemau a wynebir yn y cymunedau hyn.

O ran annog unedau busnes ac unedau egin-fusnesau i ddod i ardaloedd penodol; mae canfod a sicrhau cyllid yn allweddol, gan na ddylid sefydlu projectau heb wybod os oes cyllid ar gael.

Dywedwyd wrth y Pwyllgor y gallai'r risgiau mewn perthynas â datblygu a nodwyd pan fydd sefydlu'r Sgwâr Canolog a'r Cei Canolog yn dod yn rymus yn economaidd, arwain at yr un problemau yn codi ag a welir ym Mae Caerdydd. Roedd yn hynod bwysig nad oedd cymunedau'n cael eu gadael ar ôl petai'r ardaloedd dan sylw yn boneddigeiddio.

PENDERFYNWYD y câi barn y Pwyllgor ei thrafod yn ystod y rhan o'r cyfarfod lle y trafodir y ffordd ymlaen ac y câi llythyr ei anfon at yr Aelod Cabinet maes o law.

## 72 : CYNLLUN CHWARAEON LLEOL 2018-19

Croesawodd y Cadeirydd y canlynol:

- Y Cynghorydd Peter Bradbury, Aelod Cabinet, Diwylliant a Hamdden
- Steve Morris, Swyddog Datblygu Parciau a Chwaraeon
- Laura Williams, Uwch-gydlynydd Chwaraeon Cymdogaethol o Brifysgol Fetropolitan Caerdydd.

Daeth ymddiheuriadau i lawn gan Kathryn Thomas, Chwaraeon Cymru.

Mae'r eitem hon yn ategu'r gwaith craffu a wnaed fis Tachwedd diwethaf, pan roddwyd adroddiad cynnydd gerbron y Pwyllgor ar y Gyd-fenter gyda Phrifysgol Fetropolitan Caerdydd i ddarparu gwasanaethau chwaraeon.  Mae'r Cynllun

Chwaraeon Lleol yn nodi'r projectau a chamau gweithredu ar gyfer Caerdydd yn 2018/19 a gafodd eu crynodebu yn yr adroddiad cyffredinol ym mhwynt 10, gan ddangos hyd a lled yr ardal yng Nghaerdydd a grwpiau sy'n cael blaenoriaeth.

Datganiad y Cynghorydd Bradbury.

Nid oedd unrhyw gyflwyniad gan fod y wybodaeth wedi'i chynnwys yn y cynllun sy'n nodi'r projectau a chamau gweithredu yn y cytundeb.

Gwahoddodd y Cadeirydd y Pwyllgor i ofyn cwestiynau.

Croesawodd Aelodau'r Pwyllgor y presenoldeb mewn digwyddiadau mawr. Gan nodi'r tri digwyddiad a gynigir, gan gynnwys Race for Life 10k Caerdydd ynghyd ag un arall. Roedd y Pwyllgor yn awyddus i weld a oedd unrhyw gyfle i gynyddu hyn y tu hwynt i dri digwyddiad gyda 4ydd digwyddiad beicio o bosib.

Dywedwyd wrth aelodau bod partneriaeth beicio wedi'i lunio gydag HSBC, yn y gobaith o annog plant i ddechrau beicio yn amlach. Roedd yn hanfodol sicrhau bod mwy o blant a phobl ifanc yn cymryd rhan mewn digwyddiadau chwaraeon a sicrhau bod llwybrau addysgol ar waith i ategu hyn.

Roedd Digwyddiadau Mawr wedi chwarae rhan allweddol yng Nghaerdydd, gyda'i gwaddol 0 2012, digwyddiadau pêl-droed, a arweiniodd at sicrhau nifer uchel o wirfoddolwyr. Roedd Tennis Cymru hefyd yn rhedeg digwyddiadau bach, a oedd yn annog pobl ifanc i gymryd ymuno â chlybiau tennis.

Cyfeiriodd y Pwyllgor at Gyrff Llywodraethu gan ofyn sut y gallai'r Cyngor sicrhau bod Cyrff Llywodraethu yn cysylltu â chymunedau a oedd yn llai tebygol o gymryd rhan mewn digwyddiadau chwaraeon.

Cafodd y Pwyllgor wybod am adolygiad Chwaraeon Cymru a sut yr oedd y sefydliad hwnnw'n ymgysylltu â chymunedau. Roedd ystod eang o adnoddau a thalent yn arc ddeheuol y ddinas ac nid oedd digon o waith yn cael ei wneud i gynyddu cyfranogiad. Mae Chwaraeon Cymru wedi cael clywed am hyn ac maent yn cydweithio'n glos â Chyrff Llywodraethu i annog plant i gymryd rhan mewn chwaraeon a drefnir. Mae pawb yn cydnabod fod yr heriau sy'n wynebu Caerdydd yn unigryw gyda'i gymuned fawr o bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig a cheisio sicrhau bod pob cymuned yn cymryd rhan mewn chwaraeon.

Esboniwyd i Aelodau bod y Cyrff Llywodraethu sydd mewn cysylltiad â Phrifysgol Fetropolitan Caerdydd, bod gweithlu Chwaraeon Cymru wedi'i leihau yn anffodus, a bod ei gyllid i gefnogi gweithgareddau hefyd wedi'i ostwng. Un o'r syniadau oedd uwchsgilio pobl leol yn y cymunedau gyda ffocws ar gymryd rhan ac ymgysylltu â chwaraeon.

Roedd Chwaraeon Cymru yn canolbwyntio ar yr agweddau ar chwaraeon elit a chynyddu nifer y cyfranogwyr. Gellid dyrannu cyllid Ysgolion yr 21ain Ganrif i hamdden a chwaraeon mewn ysgolion i gynyddu ac annog cyfranogiad. Mae ymgysylltu â chlybiau chwaraeon lleol hefyd yn hanfodol, ynghyd ag arian o'r Gist Gymunedol.

Roedd y Pwyllgor yn awyddus i ganolbwyntio ar chwaraeon a drefnir a dod â digwyddiadau chwaraeon lleol i gymunedau. Gallai rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif gyfrannu tuag at wella cyfleusterau chwaraeon mewn ysgolion, ynghyd â'r posibilrwydd o gynhyrchu incwm.

Cafodd yr Aelodau wybod am ddigwyddiadau mentrau ymgysylltu, sefydlu byrddau chwaraeon cymdogaethol gyda chyfraniad gan Reolwyr Canolfannau Hamdden a gofyn i athrawon gasglu gwybodaeth am y gofynion lleol o ran chwaraeon. Bwriedir canolbwyntio hefyd ar y cyfleusterau sydd ar gael mewn Hybiau a datblygu clybiau chwaraeon presennol i gynyddu cyfranogiad. Dylid datblygu cyfleusterau Chwaraeon Ysgol ar gyfer y gymuned gan roi'r flaenoriaeth i gynyddu cyfranogiad plant a phobl ifanc.

Cafodd y Pwyllgor wybod bod ysgolion yn gallu manteisio ar sesiynau blasu yn y cyfleuster Rafftio Dŵr Gwyn a gweithgareddau rhwyfo pellach yng Nghanolfan Hamdden Trem y Môr. Mae hefyd Clwb Rhwyfo Llandaf sy'n cynnig amrywiaeth o weithgareddau dŵr yn yr ardal honno. O ganlyniad i fesurau iechyd a diogelwch nid yw'n bosib i bobl ifanc ddefnyddio'r afonydd Elai a Thredelerch gan nad yw'r dŵr bas presennol yn addas ar gyfer gweithgareddau dŵr.

Cyfeiriodd Aelodau'r Pwyllgor at nifer uchel y targedau yn yr adroddiad gan holi sut y maent yn bwriadu rheoli perfformiad yn erbyn y targedau. Hefyd, roedd y costau y gofynnwyd amdanynt wedi'u rhestrau ac a yw'r rhain yn geisiadau sydd wedi'u derbyn, neu'n geisiadau a gaiff eu cyflwyno i Chwaraeon Cymru i'w hystyried.

Dywedwyd wrth yr Aelodau bod llythyr o gynnig gan Chwaraeon Cymru wedi dod i law ar gyfer cymorth grant a ariennir yn llawn. Yn ystod y pum mlynedd ariannol nesaf roedd y cyllid wedi gostwng i bron £100k yn llai nag ym 2014. Roedd y gwasanaeth yn dal i barhau gan gydnabod bod y darparwyr yn llwydo i wneud yr un peth gyda llai o adnoddau. Mae gwaith cynllunio a mesurau lliniaru yn parhau i fynd rhagddo mewn cysylltiad â thoriadau pellach nes y rhoddodd Chwaraeon Caerdydd y gorau i ddarparu cyfleuster.

Tynnodd yr Aelodau sylw at fethu arbedion effeithlonrwydd cyllidebau dros y blynyddoedd gan holi p'un ai oedd modd i Chwaraeon Caerdydd ddarparu rhagor o wasanaethau am lai o arian, o ganlyniad i danwariant posibl.
Sicrhaodd swyddogion y Pwyllgor na allai Chwaraeon Caerdydd ddarparu mwy am lai a'i bod yn siomedig nad oedd Chwaraeon Cymru yn bresennol i ateb y cwestiynau. Mae Chwaraeon Caerdydd wedi parhau i herio Chwaraeon Cymru am leihau'r cyllid gan wneud toriadau eleni i'r elfen loteri. Roedd pawb yn cydnabod bod lleihau cyllid ar gyfer projectau bach yn cael effaith fawr dros amser gan fod yr elfennau bach yn cronni ac yn cael effaith ar adnoddau.

Dywedwyd wrth y Pwyllgor o ganlyniad i'r gydbartneriaeth rhwng Chwaraeon Caerdydd a Phrifysgol Fetropolitan Caerdydd, bod rhaglenni yn cael eu darparu. Roedd y targedau yn heriol o ran dangos ymarferoldeb projectau gan gynnwys ymgysylltu pellach â grwpiau i ferched ac annog myfyrwyr i gymryd rhan yn y projectau ar sail adnodd.

Rhoddwyd diweddariad i'r Pwyllgor am sefyllfa'r Gist Gymunedol. Caiff y sefydliad ei redeg ar sail uned sengl yn delio a cheisiadau a ailgyflwynir o flwyddyn i flwyddyn. Bellach mae newidiadau wedi'u gwneud a Chaerdydd oedd y cyntaf yng Nghymru i

wneud pethau’n wahanol drwy roi dyraniadau’r Gist Gymunedol i Fyrddau Chwaraeon i wneud penderfyniadau ar gyllido, gan mai ganddyn nhw mae’r wybodaeth am yr hyn yr oedd ei angen yn y gymuned.

PENDERFYNWYD: y caiff barn y Pwyllgor ei thrafod yn ystod yr adran 'y ffordd ymlaen' o'r pwyllgor ac y caiff llythyr ei anfon at yr Aelod Cabinet maes o law.

73 : BUSNES Y PWYLLGOR

Roedd yr eitem hon yn galluogi’r Pwyllgor i ystyried gohebiaeth a’r adroddiad drafft i’r ymchwiliad.

Dywedwyd wrth y Pwyllgor bod Swyddogion wrthi’n ceisio cael y newyddion diweddaraf am ymateb y Bartneriaeth Canolfannau Hamdden GLL i'r cwestiynau a ofynnwyd gan ddefnyddwyr y gwasanaeth. Dywedodd y Cadeirydd os na fydd unrhyw wybodaeth wedi'i dod i law erbyn 24 Ebrill 2018, y byddai’n ysgrifennu eto at y Cynghorydd Bradbury.

Nododd y Pwyllgor yr amserlen o ran yr ohebiaeth, a oedd yn cynnwys diweddariad ers 8 Mawrth 2018.

Roedd y Pwyllgor yn croesawu’r Ymchwiliad i Gyllido’r Parciau yng Nghaerdydd gan roi’r adborth canlynol:

- Bod angen datganiad clir gan y weinyddiaeth o ran y weledigaeth ar gyfer y Parciau

- Bod hwn yn astudiaeth fanwl gydag amgylchiadau heriol

- Bod yr aelodau yn falch gyda’r canlyniadau a bod yr adroddiad yn adlewyrchu sut yr oedd parciau’r ddinas yn cyfrannu tuag at lesiant trigolion Caerdydd.

- Bod hwn yn waith helaeth a bod parciau yn gweithredu'n wahanol mewn rhai ardaloedd yn y ddinas. Bod angen strategaeth gyfathrebu a bod angen ymateb i hyn.

PENDERFYNWYD: CYTUNODD y Pwyllgor ar y canlynol:

- Eu bod wedi nodi cynnwys amserlen yr ymgynghoriad sydd wedi’i atodi yn Atodiad A.

- Eu bod wedi ystyried adroddiad y gweithgor ‘Cyllido Parciau’, sydd wedi’i atodi yn Atodiad B ac yn cymeradwyo’r adroddiad, yn amodol ar unrhyw newidiadau y dymuna’r Pwyllgor eu gwneud cyn ei gyflwyno i’r Cabinet.

74 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

10 Mai 2018 am 4:30pm